**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 26 Tachwedd 2013

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Huw Jones

**Awdur yr Adroddiad:** Howard Sutcliffe

**Teitl:** Cyd Bwyllgor Arfaethedig ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE)

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn 2011 fe gadarnhaodd y Gweinidog Amgylchedd, Mr John Griffiths y Gorchymyn Dynodi AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Roedd y gorchymyn hwn yn rhoi cydnabyddiaeth newydd yn genedlaethol ac yn diogelu tirwedd mewn rhannau sylweddol o Siroedd Dinbych a Wrecsam. Yn ddaearyddol mae'r AHEN yn ymestyn o Brestatyn yn y Gogledd i Gastell Y Waun yn y De; mae'n cynnwys y trefi deniadol Llangollen a Chorwen ac yn cwmpasu 390 cilomedr sgwâr o siroedd Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. (Map Atodiad 1)

I gydnabod yr ardal estynedig sydd gan y Pwyllgor AHEN presennol, mae'r Cyd Bwyllgor Cynghori (CBC) wedi adolygu'r aelodaeth a phenderfynwyd yn gynhwysol i gael aelodaeth gytbwys dros yr Awdurdodau Lleol (ALl).

Gwahoddwyd pob un o'r ALl i yrru 3 aelod i gyfarfodydd Pwyllgor CBC o hyn ymlaen.

Cychwynnodd y Pwyllgor CBC gydag adolygiad o'i system llywodraethu trwy gyfres o seminarau a phapurau. Argymhellodd y Pwyllgor wrth ei swyddogion yr hoffai weld perthynas gadarnach rhwng yr ALl, a phenderfynwyd mai'r Model Cyd Bwyllgor (CB) oedd y mecanwaith orau i gyflawni'r nod hwn.

Mae'r Cadeirydd a Swyddog AHEN wedi gweithredu ar argymhelliad y CBC ar gyfer CB trwy gyfarfod ag Arweinwyr, y Prif Weithredwyr a'r Swyddogion Arweiniol er mwyn penderfynu ar eu safbwyntiau ar gyfer CB, roedd pob un ohonynt yn gefnogol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i sefydlu Cyd Bwyllgor (Cytundeb Drafft Cyfreithiol Atodiad 2) trwy gytundeb ffurfiol, mae angen cefnogaeth gan y pwyllgorau/gweithredwyr priodol o Gynghorau Siroedd Dinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r cytundeb yn dynodi pwerau a swyddogaethau dirprwyedig y Cyd Bwyllgor. Prif bŵer y Cyd Bwyllgor yw 'rhyddhau swyddogaethau dirprwyedig rheolaeth AHNE.' Prif rôl y CB yw 'gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal.' Yn amodol ar sefydlu Cyd Bwyllgor, bydd y CB yn derbyn cefnogaeth lawn gan y Bartneriaeth AHNE, y swyddog Grŵp Gweithiol a'r Fforwm Blynyddol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir fod y Cabinet yn cefnogi'r broses o sefydlu Cyd Bwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Bydd yr Awdurdod yn arwyddo Cytundeb Cyfreithiol â Wrecsam a Sir y Fflint sy’n cael ei baratoi gan yr adran gyfreithiol, adran cyllid a’r swyddog AHNE.
Bydd 6 aelod, sef dau o bob Awdurdod, yn aelodau o’r Cyd Bwyllgor arfaethedig. Bydd hynny’n creu pwyllgor effeithlon ac effeithiol. Dylai Cyngor Sir Ddinbych enwebu dau aelod cabinet i'r Cyd Bwyllgor. (Yn amodol ar gefnogaeth y Cabinet, mae’r tri Arweinydd wedi dynodi eu parodrwydd i sefyll ar y Pwyllgor.)

## 4. Manylion am yr adroddiad

Nid oes amheuaeth fod AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ymgorffori cyfanswm sylweddol o dir yn ddaearyddol (bron i 39,000 hectar), gydag atyniadau fel Canolfan Beicio Mynydd Llandegla (300,000 o ymwelwyr y flwyddyn) ynghyd ag atyniadau eraill sydd â photensial fel Chwareli Plwm Minera.
Mae AHNE yn rhoi cyfle sylweddol o ran iechyd a lles i gytrefi Glannau Dyfrdwy, Wrecsam, Sir Caer a Glannau Mersi sy'n penderfynu dod i fwynhau tirwedd yr AHNE.
Mae newidiadau radical wedi digwydd i swyddogaeth economaidd y tri Awdurdod yn ystod y 50 mlynedd ddiwethaf. Mae yna leihad wedi bod mewn gweithgynhyrchu trwm, peirianneg a chloddio, ynghyd â mecanwaith a rhesymoli ffermydd, a bu colled sylweddol mewn cyflogaeth yn yr economi leol.
Mae hynny'n golygu fod y tri awdurdod wedi dibynnu fwyfwy ar dwristiaeth wledig. Bellach mae’r atyniadau twristiaeth sylweddol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i'w cael yn yr AHNE ac mai tirwedd yr AHNE sy'n gwneud pob un mor drawiadol. Mae Parc Gwledig Tŷ Mawr, Rheilffordd Llangollen a Pharc Gwledig Loggerheads yn gyrchfannau allweddol sy’n gweithio, ac yn gallu gweithio, mewn harmoni â’r AHNE.

Prif fanteision y Cyd Bwyllgor yw:

- **Rhagor o amlygrwydd i’r AHNE –** mae gan y Cyd Bwyllgor bŵer dirprwyedig i gefnogi’r dynodiad ac i gyflawni’r Weledigaeth. Mae gan yr AHNE lais ei hun a gall gytuno ar weithredoedd ag eraill.
- **Gwella eglurder -** mae gan y Cyd Bwyllgor swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd amlwg ar gyfer llywodraethu'r AHNE.
- **Gwella cydlyniad o weithredoedd AHNE –** mae gan y Cyd Bwyllgor awdurdod i weithredu ar draws ffiniau awdurdod lleol.
- **Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd -** y Cyd Bwyllgor yw'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer materion llywodraethu AHNE. Mae’r pwyllgor yn ddigon bach o ran maint i wneud penderfyniadau ac yn ddigon mawr i gael trafodaeth.
- **Strategaeth benodol –** mae gan y Cyd Bwyllgor raglen amlwg i drosglwyddo Gweledigaeth AHNE.
- **Arweinyddiaeth â Ffocws -** mae gan y Cyd Bwyllgor yr adnoddau i weithredu'r rhaglen AHNE, gydag aelodau etholedig yn canolbwyntio ar ddiben y dynodiad AHNE ac anghenion y dinasyddion a'r defnyddwyr gwasanaeth. Byddent yn trosglwyddo gwasanaeth o safon uchel sydd hefyd yn gost effeithiol.
- **Stiwardiaeth Cyfrifol –** Cyd Bwyllgor sy’n atebol; mae’n gyfrifol am adnoddau, yn arbennig adnoddau pobl eraill.

- **Eiconau -** mae yna agweddau gwerthfawr penodol sy'n ymestyn ar draws mwy nac un Awdurdod. Bydd y Cyd Bwyllgor yn dylanwadu ac yn cyfrannu at y broses o'u rheoli ac maent yn cynnwys: Safle Treftadaeth y Byd - Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen, Moel Famau a Thŵr Jiwbilî a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa.

Er gwelir y Cyd Bwyllgor fel 'arfer da' ar gyfer llywodraethu'r AHNE; mi fydd y Swyddogion AHNE yn symud ymlaen gyda nifer o agweddau presennol y Cyd Bwyllgor Cynghori sy'n bodoli dros dro.
Bydd y Cyd Bwyllgor yn sefydlu Partneriaeth AHNE yn ei gyfarfod cyntaf; a bydd yr aelodau'n cynnwys nifer o gyrff allanol i gynrychioli cymunedau, perchnogion tir a busnesau. Bydd cynrychiolaeth hefyd o bedair agwedd allweddol o'r Cynllun AHNE; Mynediad a Hamdden, Amgylchedd Naturiol, Amgylchedd Adeiledig ac Amgylchedd Hanesyddol. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn edrych am unigolion sy'n ysbrydoli ac o ganlyniad yn gwneud yr AHNE yn bartneriaeth fwy cynhwysfawr.
Er mwyn dangos ymdriniaeth fwy cynhwysfawr bydd yr AHNE yn cynnal Fforwm AHNE yn flynyddol. Bydd gan bob Fforwm thema bynciol. Gwahoddir aelodau'r Cyngor Sir a Chynghorau Cymuned lle mae ganddynt Ward, neu ran o'u Ward o fewn yr AHNE ynghyd, ac unrhyw gyrff neu unigolion eraill sydd â diddordeb.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- **Economi -** nid oes unrhyw amheuaeth fod economi twristiaeth wledig yn chwarae rôl allweddol mewn Awdurdodau gwledig; mae'r AHNE yn cefnogi'r nod trwy fframwaith y Siarter Twristiaeth Cynaliadwy Europarc a gymeradwywyd i'r AHNE yn 2009. Wrth gwrs, dim ond i'r AHNE ar gyfer Bryniau Clwyd sy'n llai o ran maint y mae hwn yn berthnasol. Bellach mae gan y grŵp busnes a sefydlwyd o'r siarter 120 o aelodau. Bydd y Siarter yn cael ei diwygio'n 2014 a bydd angen ystyried yr AHNE sydd bellach yn ardal fwy o ran daearyddiaeth. Mae'r cyllido ar gyfer y strategaeth yn ei le.
  Dros y 5 mlynedd diwethaf mae aelodau o'r Tîm AHNE wedi llwyddo i dynnu dros £3,000,000 o gyllid mewn grantiau allanol. Mae'r rhain wedi cynnwys y 'Prosiect Canolfan mewn Rhagoriaeth Beicio', prosiect datblygu 'Cymunedau a Natur', a Phrosiect Treftadaeth y Loteri 'Y Grug a'r Caerau'.
- **Iechyd a Lles –** Caiff yr ymwelwyr a'r trigolion eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau awyr agored o addysg cerdded, beicio i ddigwyddiadau iechyd penodol. Yn y dyfodol bydd un agwedd o waith yn canolbwyntio ar brosiect cynhwysiad ar addysg ar gyfer ardaloedd eraill o Ogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin.
- **Cymuned -** Yn y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan ganolog mewn cefnogi AHNE trwy eu Cronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae hynny'n golygu o leiaf £50,000 y flwyddyn i brosiectau lleol; yn 2013/14 y ffigwr fydd £70,000.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Sir Ddinbych yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer yr AHNE fel ag y bu ers y broses o Ailstrwythuro Llywodraeth Leol ym 1996. Bydd yn parhau i fod yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer y Cyd Bwyllgor; ac o ganlyniad darperir y Swyddogion canlynol ar gyfer y Cyd Bwyllgor: yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Cynhelir cyfarfodydd y Cyd

Bwyllgorau ym mhob Awdurdod yn eu tro; bydd yr Awdurdod a gynhelir y cyfarfod yn darparu gwasanaeth ysgrifennydd ar gyfer y cyfarfod dan sylw.
Gwasanaethau'r Gyfraith a Democrataidd fydd yn bennaf gyfrifol am y costau hyn.
Bydd Sir Ddinbych yn darparu Llinell Gyllid ar wahân ac yn Adrodd i'r Pwyllgor. Fel gyda holl Gyllidebau Cyd Bwyllgor caiff y gyllideb ei harchwilio ar wahân. Mae'r rhain yn gostau i Gyllid a Chefn Gwlad.
O ran cyllideb, gwelir y cyllid presennol yn y cytundeb cyfreithiol. Dros y bum mlynedd nesaf bydd y gyllideb, trwy drafodaeth, yn cael ei rhannu'n deg rhwng y tri Awdurdod.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad. (Atodiad 3)

**8. Pa ymgynghoriadau a wnaed gydag Archwiliad ac eraill?**

Ymgynghorwyd â Chyd Bwyllgor Bryniau Clwyd ac rydym yn disgwyl i'r CB gael ei sefydlu. Mae'r Arweinwyr ALI, Arweinwyr Arweiniol, Prif Weithredwyr a'r Swyddogion Arweiniol wedi derbyn cyfarwyddyd. Mae Swyddogion Arweiniol o'r tri Awdurdod wedi drafftio Cytundeb Cyfreithiol. Mae ymgynghoriad wedi bod â'r Swyddogion Cyllid ac mae hynny wedi'i gynnwys yn y Cytundeb. Mae'r Swyddog AHNE wedi hysbysu'r Cabinet anffurfiol. Gofynnir i'r tri Cabinet/Gweithredwr neu unrhyw Bwyllgorau eraill i gefnogi'r Cyd Bwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y cytundeb yn rhoi gwell cynllun a sefydlogrwydd ariannol i Gyd Bwyllgor AHNE ond ar yr un pryd yn sicrhau cytundeb blynyddol ar gyllidebau a fydd yn galluogi aelodau o'r awdurdodau i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau ariannol. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i GSDd ar y cyfan gan fod y cymorth ariannol, cyfreithiol a gweinyddol ychwanegol yn dod o fewn strwythurau staffio presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- **Ariannol -** mae'r risg yn isel, ond mae yna gyfanswm sylweddol o amser ac ymdrech wedi bod gan swyddogion i gyrraedd y pwynt lle gofynnir i'r Cabinet wneud penderfyniad o gefnogi'r Cyd Bwyllgor. Mae'r Pwyllgor AHNE hefyd wedi buddsoddi llawer iawn o amser gwirfoddol yn trafod gwelliant mewn atebolrwydd a llywodraethu.
- **Enw da –** Mae'r swyddogion yn rhagweld cydweithio cadarnach rhwng yr Awdurdodau Lleol fel ffordd ymlaen i'r AHNE, mewn achosion blaenorol mae cydweithio wedi bod yn anffurfiol. Mae'r Cyd Bwyllgor yn ffurfioli hyn ac yn dangos fod yr Awdurdodau Lleol yn gallu gweithio ar y cyd mewn modd strwythuredig. Gall aelodau allanol hefyd ddefnyddio'r Cyd Bwyllgor i ariannu prosiectau yng Ngogledd Dwyrain Cymru sydd â ffocws ar yr AHNE.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae'r sail Cyfreithiol i sefydlu Cyd Bwyllgor yn bodoli yn Adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol fynd i gytundebau i 'ryddhau'r swyddogaeth ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill trwy'r dull o Gyd Bwyllgor.'